

Diogelu a hybu cydraddoldeb a hawliau dynol

Adolygiad Cymru 2013 / 14

Cynllun Gwaith Cymru 2014 / 15



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Cynnwys

Croeso.....	3
Pwyllgor Cymru.....	4
Defnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i sbarduno newid.....	6
Hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith.....	8
Deall y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi.....	10
Diogelu hawliau dynol i bawb.....	12
Defnyddio tystiolaeth i leihau anghydraddoldeb.....	14
Dyfodol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.....	16
Ein blaenoriaethau 2014/15.....	18

Cysylltwch â ni

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn anelu at leihau anghydraddoldeb, cael gwared ar wahaniaethu ac hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol.

Ceir yr adroddiad hwn a mwy o wybodaeth yn:

www.equalityhumanrights.com/wales

neu gallwch gysylltu â ni ar

02920 447710

wales@equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Medi 2014

ISBN: 978-1-84206-564-8

Croeso

Y llynedd, gofynnem i bobl weithio gyda ni i gyfnerthu'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru gyda'n gilydd.

Mae'r egni a'r penderfyniad y mae unigolion a phartneriaid wedi'u dwyn i'r gorchwyl hwn wedi bod yn wirioneddol galonogol i ni. Gyda'n gilydd rydym wedi cyfnerthu cydraddoldeb a hawliau dynol mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae'r Comisiwn am feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell o werth hawliau dynol ar draws Cymru. Mae hawliau dynol i bawb, ond gall rhai pobl efallai fod yn fwy tebygol nag eraill i ganfod bod eu hawliau dynol yn cael eu bygwth. Rydym wedi siarad ag awdurdodau cyhoeddus am yr angen i gynnal hawliau dynol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o gyrrff cyhoeddus yn taclo troseddau casineb.

Dengys tystiolaeth o'n gwaith ymchwil a monitro o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ei bod yn gatalydd ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n llymach ar anghenion pawb yn y gymuned. Mae'n dal yn ffordd hir i'w theithio i wireddu Cymru deg. Dengys ein hadroddiad Pwy sy'n rhedeg Cymru? nad oes dim cynnydd o'r braidd wedi digwydd yn y deng mlynedd ddiwethaf o ran penodi menywod i rolau gwneud penderfyniadau.

Bu gweithio gyda chydweithwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn fraint i ni wrth gyfnerthu'r enillion cydraddoldeb a hawliau dynol a wnaed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn tanategu popeth a wnawn. Dyma'r allwedd i leihau'r anghydraddoldeb a'r cam-drin hawliau dynol sydd wedi hen galedu.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y flwyddyn i ddod i ddiogelu a hybu cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb.

Ann Beynon
Comisiynydd Cymru

Kate Bennett
Cyfarwyddyd Cenedlaethol
Cymru



Pwyllgor Cymru

Mae Pwyllgor Cymru yn gosod cyfeiriad strategol gwaith y Comisiwn yng Nghymru. Caiff ei seilio ar wybodaeth a sylwadau'r cannoedd o bobl y mae'r Pwyllgor yn cwrdd â hwy bob blwyddyn. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb ffurfiol i gynghori Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae llais y Pwyllgor yn sicrhau bod ein gwaith ledled Prydain yn ystyried yr ymagwedd wahanol sydd gennym yma i gydraddoldeb a hawliau dynol.

Daw'r Pwyllgor â phobl ynghyd i gyfnewid syniadau, datblygu agenda cyfrannol ac i sefydlu partneriaethau.

Mae Pwyllgor Cymru bellach wedi cwblhau ei daith o amgylch y wlad. Mae wedi cynnal cyfarfodydd ymhob rhanbarth awdurdod lleol yng Nghymru. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi cwrdd ag a gwranddo â phobl o Hwlfordd i Glyn Ebwy ac o'r Barri i Sir Fôn. Dywedodd uwch arweinyddion gwasanaeth cyhoeddus a'r sector preifat, gwirfoddolwyr y llinell flaen ac ymgyrchwyr cydraddoldeb wrthym am flaenoriaethau yn eu hardaloedd.

Mae'r pynciau y trafodwyd arnynt eleni yn cynnwys effaith diwygio lles, mynediad at ganolfannau mewn trefi a'r angen am gyngor cyfreithiol o ansawdd.

'Mae gwranddo ar farn pobl a'i deall yn ein helpu i sicrhau ein bod wedi ymgysylltu â chymunedau ar draws Cymru. Golyga hyn fod gwaith y Comisiwn yn adlewyrchu barn pawb.'

'Rydym yn ffodus bod llawer o gyrff cyhoeddus wedi'n croesawu dros y saith mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn ein galluogi i feithrin partneriaethau cryf a llwyddiannus ar draws gwasanaeth cyhoeddus i adeiladu Cymru decach.'

Ann Beynon
Comisiynydd Cymru'r Comisiwn



Ann Beynon OBE yw'r Comisiynydd i Gymru ac mae'n cadeirio ein Pwyllgor Cymru. Mae Ann yn Gyfarwyddwr i British Telecom yng Nghymru.

Y Parch Aled Edwards OBE yw Prif Weithredwr CYTÛN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru).

Mae gan **Dilys Jouvenat** brofiad helaeth o weithio yn y sector cyhoeddus ac ar hyn o bryd mae'n rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Karen Dugate yw Prif Weithredwr Cymdeithas Dai Merthyr Tudful.

Ystyrir **Marie Brousseau-Navarro** yn arbenigwr blaenllaw ar Gyfraith Cymru a Datganoli a hi yw Rheolwr Gyfarwyddwr Your Legal Eyes.

Mae **Meryl Elmusrati** yn Rheolwr Rhaglen i raglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn Sir y Fflint.

Mae **Mona Bayoumi** yn Fargyfreithiwr sy'n arbenigo mewn Hawliau Dynol, Lloches a Mewnffudo. Siambrau Cyfraith Civitas yw ei chanolfan.

Mae **Saleem Kidwai OBE** yn Ysgrifennydd Cyffredinol i Gyngor Mwslimiaid Cymru, yn Gymrawd Anrhydeddus i Brifysgol Caerdydd ac yn gyfrifydd cymwysedig.

Mae **Siân Gale** yn Gyfarwyddwr Cwmni Pawb sy'n arbenigo mewn hyfforddiant, ymchwil a gwerthuso i'r Diwydiannau Creadigol yn ogystal â sefydliadau cymunedol ac undebau llafur.



Ann



Aled



Dilys



Karen



Marie



Meryl



Mona



Saleem



Siân

Defnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i sbarduno newid

Y Comisiwn yw rheolydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Ein hymagwedd rheoleiddiol yw gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus i annog, rhoi arweiniad ar a monitro'r gwaith yn ymwneud â'r Ddyletswydd. O ganlyniad i waith ymchwil gan NatCen ac i'n gwaith monitro ni ar y Ddyletswydd daethom i'r casgliad fod:

Y Ddyletswydd yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru a dylid ei chadw.

Mae dyletswyddau penodol Cymru yn ategu a helpu cynnydd ar waith cydraddoldeb. Mae awdurdod cyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli, megis Gwasanaeth yr Heddlu, yn gweithio i ysbryd y dyletswyddau penodol Cymreig.

Mae'r Ddyletswydd yn gatallydd er newid.

Mae pob corff cyhoeddus pwysig yng Nghymru wedi gallu arddangos sut mae'r Ddyletswydd yn ategu gwaith i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cydraddoldeb a meithrin perthynas dda. Mae'r Ddyletswydd wedi codi proffil yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac wedi helpu ymwreiddio diwylliant o degwch, urddas a pharch. Cafodd rhannu ymarfer effeithiol ei nodi fel erfyn allweddol i wella gweithrediad y Ddyletswydd.

Defnyddir y Ddyletswydd i ddylanwadu ar ac archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn ymddwyn.

Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi defnyddio'r Ddyletswydd i godi proffil materion penodol ac i dynnu sylw at le y gallai cyfyngiadau cyllidebol gael effaith anghymesur. Daw fwy o dryloywder ac atebolrwydd yn sgil y Ddyletswydd. Mae cyhoeddi Asesiadau effaith ar Gydraddoldeb yn arbennig yn cynorthwyo sefydliadau ymgyrchu i ddal awdurdodau cyhoeddus i gyfrif o ran eu penderfyniadau.

Cyfle i Lywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth.

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd benodol i gyhoeddi adroddiad ar sut y mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswydd gyffredinol. Bydd ein gwaith monitro ac ymchwil yn bwydo i'r adroddiad. Bydd yn rhaid iddo amlinellu trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus. Bydd yn rhaid iddo gynnig ffyrdd o gydlynnu cynyddol i wthio gwelliant.

'Mae cam-drin domestig, iechyd meddwl, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac asesu effaith ar gydraddoldeb i gyd yn faterion pwysig fel rhan o'n hagenda, ac yn sicr yn fy marn i, mae angen i ni fel Cynulliad eu codi'n barhaus'

Peter Black AC
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Rhoi'r ddyletswydd ar waith

Dengys ein gwaith monitro ar y Ddyletswydd fod awdurdodau cyhoeddus yn ei defnyddio i helpu gwella gwasanaethau. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i rannu arfer effeithiol.

Datblygodd **Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr** becyn cymorth "Rhoi Hawliau Dynol yn Ganolog i Faeth a Hydradiad" i helpu staff sicrhau fod cleifion, yn enwedig y rhai hŷn, yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Ymgwymerodd **Cyngor Caerdydd** ag asesiad effaith o'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a nodi diffyg posibl o ran darpariaeth chwarae i blant anabl, ac ymatebodd i ateb y diffyg.

Taclodd **Prifysgol De Cymru**'r bwch cyflog rhwng y rhywiau drwy gyflwyno llwybrau gyrfa newydd i gynorthwyo mwy o fenywod i gyrraedd yr uwch lefelau. Yn ei sgil, llwyddodd fwy o fenywod i gyrraedd lefel Athro a Darllenwr.

Nododd **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** bobl â chyflyrau iechyd meddwl o fod mewn perygl neilltuol i danau tai. Maent yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i rannu data a galluogi nyrsys iechyd meddwl i asesu tai o ran perygl tanau fel rhan o strategaeth ataliol.

Mae gan **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** gynllun gweithredu (mewn partneriaeth â Pharciau Cenedlaethol eraill) – Y Prosiect Mosaic – i wella mynediad a denu fwy o bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

Ymgysylltodd **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru** â phobl LGBT ac, o ganlyniad, cafodd sylw ei dynnu at yr angen i wasanaethau iechyd gydnabod cymheiriaid pobl LGBT.

Monitrodd **Prifysgol Caerdydd** ddata yn ymwneud â chrefydd neu gred myfyrwyr. Defnyddir hyn i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr, er enghraifft, myfyrwyr Mwslimaidd pan fo Ramadan yn digwydd yn ystod cyfnod o arholiadau.

Ymgysylltodd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** â defnyddwyr gwasanaeth iechyd trawsryweddol mewn ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau sgrinio ac i gynyddu gwybodaeth aelodau staff GIG.

Gwnaeth **Cartrefi RCT** ailddodrefnu uned cartrefi gwarchod i bobl hŷn a symud tenantiaid i lety dros dro. Er mwyn diwallu anghenion tenant â dementia, cafodd ei symud ganddynt i fflat a'i gynllun yn union yr un fath â'i chartref parhaol.


Hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith

Mae gan gyflogwyr gwasanaeth cyhoeddus ran bwysig wrth gefnogi hawliau dynol staff. Mae cyflogwyr wedi mabwysiadu polisïau i gefnogi staff sy'n dioddef cam-drin domestig neu sydd â chyflwr iechyd meddwl. Gall rhai pobl deimlo eu bod wedi'u heithrio o'r gweithle oherwydd eu cred grefyddol.

Atal trais yn erbyn menywod

Rydym wedi diweddarau ein canllaw ar bolisïau yn y gweithle ar gam-drin domestig i gynnwys pob math o drais yn erbyn menywod. Rydym, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi cynnal digwyddiadau ym Mae Colwyn a Chaerdydd i egluro sut y gall sefydliadau osod polisïau yn eu lle i gefnogi staff. Yn sgil y digwyddiadau, rydym wedi gallu ymgysylltu â'r sector allweddol hwn.

Ysgrifennodd y Gweinidogion dros Lywodraeth Leol a Thai at sefydliadau i'w cynghori i weithredu polisïau a oedd yn seiliedig ar ein canllaw.



O ganlyniad, mae pob sefydliad cyhoeddus pwysig - gan gynnwys cynghorau, Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol GIG, gwasanaethau'r Heddlu a chymdeithasau tai - wedi llunio neu ddiwygio polisïau. Mae dros 500,000 o aelodau staff bellach wedi'u cwmpasu gan y rhain. Maent yn helpu sicrhau diogelwch a lles cyflogeion gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru ac yn helpu cyflogwyr gadw aelodau staff da.

Ar y cyd a Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu cynhyrchiom ganllaw ar gam-drin domestig a oedd wedi'i deilwra at fusnesau. Mae cwmnïau angori Cymru, megis Cassidian, bellach yn rhoi'r canllaw hwn ar waith.

'Dangosodd ymchwil fod 1 o bob 4 menyw ac 1 o bob 6 dyn yn dioddef cam-drin domestig ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae'n debygol, felly, y bydd gan bob gweithle staff sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth ynghyd â'r rheiny sy'n cam-drin. Mae'n hanfodol bwysig bod gennym bolisi effeithiol i sicrhau bod staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi wrth geisio mynd i'r afael â'r problemau.'

Lesley Griffiths AC
Gweinidog Cydraddoldeb

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar waith

Cefnogodd partneriaeth **Cyngor Sir Gaerfyrddin** â Chymorth i Fenywod a'r Fforwm Cam-drin Domestig 315 o bobl, 116 ohonynt mewn llys barn. Cafodd larymau monitro eu gosod i 76 o bobl ac elwodd 164 o bobl gan welliannau diogelwch i'w diogelu rhag trais.

Iechyd meddwl yn y gweithle

Gweithiom gydag Airbus yn Broughton i ddysgu mwy am ei ymagwedd at gefnogi cyflogeion â chyflyrau iechyd meddwl. Mewn partneriaeth â darparwyr iechyd lleol, datblygodd Airbus wasanaeth ar ei safle i gyflogeion gynnal eu hiechyd a'u lles, a thaclo stigma iechyd meddwl. Yn sgil hwnnw, gostyngodd absenoldeb oherwydd salwch iechyd meddwl o 25% i 12%. Rydym yn rhannu'r ymagwedd hon â chyflogwyr eraill drwy ein pecyn cymorth i wella arfer effeithiol ledled Cymru.

Siaradom â dros 130 o sefydliadau yn y gynhadledd 'Dewch inni siarad' a drefnwyd gan 'Mental Health Matters' a Fforwm Busnes Pen-y-bont. Mae cyflogwyr bellach yn defnyddio ein deg awgrym gorau i gefnogi staff â chyflyrau iechyd meddwl ac i gynnal gweithle uchel ei gymhelliant a chynhyrchiol.

Rydym wedi datblygu partneriaethau â Iechyd Cyhoeddus Cymru a Safon Iechyd Corfforaethol i ymestyn cyrhaeddiad ein pecyn cymorth ar iechyd meddwl.

Crefydd yn y gwaith

Rydym wedi lansio galwad am dystiolaeth i gasglu profiadau o lygad y ffynnon gan unigolion a sefydliadau am sut mae eu crefydd neu gred, neu grefydd neu gred pobl eraill, efallai wedi effeithio arnynt yn y gweithle ac wrth ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau bob dydd.

Rydym yn archwilio i ba ganllaw sydd ei angen i gynorthwyo cyflogwyr i gefnogi pobl a chrefyddau gwahanol ganddynt yn y gweithle. Gall dealltwriaeth well o grefydd helpu cyflogwyr ddenu a chadw'r staff gorau posibl. Bydd yn helpu sicrhau na fydd pobl yn cael eu heithrio yn y gweithle a'u bod yn gallu gwireddu eu llawn botensial.

I ennyn dealltwriaeth cynhaliom drafodaethau gyda grwpiau crefyddol yng Nghymru, megis y Fforwm Rhyng-Ffydd, y Cyngor Hindŵaidd i Gymru a chynrychiolwyr Iddewig. Siaradodd menywod Mwslimaidd â ni ynghylch eu profiadau. Bydd hyn yn ein llywio wrth i ni daclo'r rhwystrau rhag cael mynediad at swyddi a llwyddo yn y gweithle.



Deall y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi

Yn 2011 cyhoeddodd Pa mor deg yw Cymru? gan nodi'r anghydraddoldeb mwyaf yng Nghymru. Canfyddiad allweddol yng Nghymru yw bod anfantais gymdeithasol economaidd wedi ei chydblethu ag anghydraddoldeb ar sail nodweddion unigol megis anabled neu ethnigrwydd. Felly, gweithiom gyda phartneriaid i edrych ar sut mae'r anghydraddoldeb hwn yn cydgysylltu a sut gellir ei dacio.

Cyfnewidfa Cydraddoldeb

Mae gan ein Cyfnewidfa Cydraddoldeb aelodau o 160 o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn bennaf. Maent yn ymarferwyr cydraddoldeb ac adnoddau dynol gan mwyaf. Yn eu gwaith, maent yn canolbwyntio ar hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ym maes cyflogaeth a gwasanaethau. Mae aelodau yn rhannu arfer effeithiol mewn digwyddiadau rhanbarthol.

Cyfarfu cynrychiolwyr y trydydd sector ag aelodau i archwilio'r gwahaniaeth y mae defnyddwyr gwasanaeth am ei weld yn sgil Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Crybwyllodd staff caffael a chydraddoldeb ar sut y gallai'r Ddyletswydd Caffael hybu cydraddoldeb.

Canolbwyntiodd Cynhadledd 2013 ein Cyfnewidfa Cydraddoldeb ar anghydraddoldeb a heriau cymdeithasol economaidd yng Nghymru. Gweithiodd y gynhadledd ar ennyn dealltwriaeth well o sut mae anghydraddoldeb a thlodi yn cysylltu â'i gilydd. Siaradodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Cydraddoldeb ar y pryd, am gyflwyno dyletswydd gymdeithasol economaidd yng Nghymru.

Anogodd y gynhadledd i bobl a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb ddeall tlodi yn well ac i'r rheiny a oedd yn ymwneud â thlodi ddeall cydraddoldeb yn well - megis cydnabod bod pobl anabl ac unig rieni (90% ohonynt yn fenywod) yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi.

Rhannodd ein gweithdai enghreifftiau o gamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi fel ei gilydd. Disgrifiodd y Gwasanaeth Rheoli Tramgwyddwyr Cenedlaethol sut roedd rhai unig rieni yn brwydro i fynychu cyfarfod ymyrryd wythnosol oherwydd nad oedd cyflenwad gofal plant digonol ganddynt. Yn sgil darparu meithrinfa, cynyddodd y presenoldeb a gostyngodd yr helyntion o gael eu hanfon yn ôl i'r carchar.

Cynhadledd Cyfnewidfa Cydraddoldeb 2013



'Rwy'n annog y Gweinidog i asesu'r ffyrdd y gallwch weithio'n agosach gyda 'r Comisiwn er mwyn cefnogi pobl (gyda nodweddion gwarchoddedig) sy'n byw mewn tlodi, ac nid i ddatblygu strategaeth ond ffordd ystyrlon ymlaen sydd mewn gwirionedd yn lleddfu anfantais gymdeithasol economaidd i bob grŵp yng Nghymru.'

Janet Finch-Saunders AC
Ceidwadwyr Cymru

Archwilio anghydraddoldeb a thlodi ym myd addysg

Edrychom yn fanylach ar y berthynas rhwng anghydraddoldeb a thlodi a'i heffaith ar gyrhaeddiad addysgol. Roeddem am ganolbwyntio ar y sefyllfa yn yr ysgolion, gan fod cyrhaeddiad addysgol yn borth mor bwysig i lwyddiant yn y dyfodol. I archwilio hyn, croesawom y cyfle i weithio ar y cyd â Chyngor Abertawe.

Ein hamcan oedd darganfod a oedd yn bosibl ac yn ddymunol i fod ag ymagwedd sengl i wella deilliannau addysgol i ddisgyblion ag anghenion amryfal. Er enghraifft, mae llawer o blant ag Anghenion Addysg Arbennig, hefyd, yn byw mewn teuluoedd cymdeithasol economaidd difreintiedig.

Edrychom ar sut roedd yr anghydraddoldebau hyn yn cydgysylltu ac a oedd y disgyblion hyn mewn perygl o syrthio rhwng dwy strategaeth – y strategaeth cydraddoldeb a'r strategaeth tlodi.

Roedd thema yn codi nad oedd gormod o strategaethau efallai yn ddefnyddiol, gyda rhai mewn perygl o gael eu tanseilio gan eraill. Y farn gyffredinol oedd y gellid cyflawni strategaeth sengl a oedd yn ddymunol ac yn cwmpasu anghydraddoldeb a thlodi ac yn canolbwyntio ar **adeiladu cynhwysedd, bod yn gynhwysol** ac ar **ddiwylliant sy'n newid** - gan gynnwys ymyriadau penodol ar gyfer disgyblion unigol. Ceir adroddiad y gwaith hwn ar ein gwefan.

Mae'r tabl isod yn arddangos yr amrywiad o ran canlyniadau addysgol.

Cyrhaeddiad Cyfartalog Abertawe

Cam Allweddol 4 Lefel Trothwy gyda Saesneg/ Cymraeg a Mathemateg

2009/12	2011/13	
54%	55%	yr holl ddisgyblion
58%	59%	merched
51%	52%	bechgyn
13%	16%	plant sy'n derbyn gofal
60%	61%	disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim
25%	27%	disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim
66%	67%	disgyblion heb AAA
14%	16%	disgyblion ag AAA a gweithredu gan yr ysgol a mwy
15%	19%	disgyblion â datganiadau AAA
89%	100%	disgyblion Tsieineaidd
51%	61%	disgyblion Bangladeshaidd
47%	59%	disgyblion du Caribiaidd ac Affricanaidd
54%	54%	disgyblion gwyn

Diogelu hawliau dynol i bawb

Rôl y Comisiwn yw sicrhau bod hawliau dynol mewn gwirionedd i bawb. Ein nod yw diogelu a hybu hawliau dynol yng Nghymru fel bo pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Darlith Flynyddol ar Hawliau Dynol

Yr Athro Swaran Singh, Aelod Bwrdd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a draddododd ein Darlith Flynyddol ar Hawliau Dynol eleni. Cafodd ei chynnal gan Brifysgol De Cymru i gyd-ddigwydd â Diwrnod Hawliau Dynol Rhyngwladol.

Canolbwyntiodd y ddarlith ar achosion cymdeithasol afiechyd meddwl, megis unigedd, gwahaniaethu a gwaharddiad. Amlinellodd yr Athro Singh sut y gellid ystyried salwch iechyd meddwl fel symptom o anawsterau ehangach y mae rhai pobl yn eu hwynebu o fewn cymdeithas.



Yr Athro Swaran Singh

Dangosodd y ddarlith sut mae afiechyd meddwl yn effeithio'n ddirfawr ar unigolion, gofalwyr, cymunedau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Yn aml, ni cheisir am gymorth neu caiff ei ohirio oherwydd cyfuniad o stigma, diffyg ymwybyddiaeth a mynediad at wasanaethau.

Awgrymodd yr Athro Singh fod dadl gyhoeddus ar afiechyd meddwl yn angenrheidiol a bod ei hangen ar frys os yw cymdeithas am ddiogelu hawliau pobl â chyflyrau iechyd meddwl a sicrhau fod pawb yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar waith

Adroddodd **Ymddiriedolaeth GIG Felindre** ei bod wedi ail gynllunio gynau ysbyty yn sgil ymgysylltu â phobl.

'Rydym yn falch o weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i dynnu sylw at Ddiwrnod Hawliau Dynol Rhyngwladol.

Edrychwn ymlaen at glywed meddyliau'r Athro Singh ar yr hyn y gallwn oll ei wneud i sicrhau bod hawliau dynol pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn cael eu parchu.'

Yr Athro Julie Lydon
Is Ganghellor
Prifysgol De Cymru

Defnyddio'r gyfraith

Mynychodd dros 50 o gynghorwyr cyfreithiol, o ganolfannau Cyngor ar Bopeth, undebau llafur a'r trydydd sector, ein cyrsiau achrededig yng Nghaerdydd a Wrecsam ar gyfraith gwahaniaethu. Roedd gwerthusiadau yn dangos bod y cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu nodi gwahaniaethu yn y gweithle a chynorthwyo unigolion i gael mynediad at gyfiawnder yn well. Rydym yn monitro effaith y cwrs ar waith cynghorwyr.

Mynychodd 27 o gynghorwyr llinell flaen â chwrs 'cyfle blasu' un dydd yng Ngorllewin Cymru, gan ofyn ar ddiwedd y dydd am gwrs llawn yn yr ardal.

Cefnogom gwpl hoyw mewn apêl yn y Goruchaf Lys, a ddyfarnodd nad oedd credoau crefyddol perchnogion llety gwely a brecwast yn rhoi hawl iddynt wahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

Ymyrrom mewn achos a gafodd ei ddwyn gan nifer o hawlwyd anabl, lle gwnaeth y Llys Apêl wrthdroi penderfyniad y Llywodraeth i derfynu'r Gronfa Byw Annibynnol.

Darparom gyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol ar hawliau dynol o ran y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bil Tai, ac i'r Senedd ar gynigion i ddiwygio cymorth cyfreithiol ac o ran y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma ar y defnydd o bwerau stopio a chwilio.

Ein rôl fel Sefydliad Cenedlaethol ar Hawliau Dynol

Cyflwynom adroddiadau cysgodol gerbron cyrff cyfamodi perthnasol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod. Cafodd y rhan fwyaf o'n hargymhellion a'n pryderon eu hadlewyrchu wrth i ddau Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig roi eu sylwadau i gloi. Bydd hyn yn ffurfio sylfaen gwaith yn y dyfodol gydag adrannau'r Llywodraeth.

Cyfarfûm â dau Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig yn ystod y flwyddyn. Gwrandawodd y Rapporteur Arbennig ar dai, Raquel Rolnik, ar dystiolaeth lafar gennym ar y sefyllfa ym maes tai cymdeithasol yng Nghymru.

Ymwelodd y Rapporteur Arbennig ar Drais yn erbyn Menywod, Rashida Manjoo, â Chymru a chyfarfu â'r Comisiwn. Mynegodd ofid difrifol ynglŷn â'r symudiad o benodolrwydd rhywiol i niwtraliaeth rywiol o ran taclo trais yn erbyn menywod.

Mae hyn wedi llywio ein cyngor i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Bil Trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Cymru).

Defnyddio tystiolaeth i leihau anghydraddoldeb

Rydym wedi rhoi cyngor a darparu tystiolaeth i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddeall effaith penderfyniadau cyllidebol. Hefyd, cafodd partneriaethau eu sefydlu, yn sgil ein tystiolaeth a'n hargymhellion, sy'n benderfynol o daclo troseddau casineb a'r bwlch rhwng y rhywiau o ran gwneud penderfyniadau.

Cyngor i Lywodraeth Cymru ar asesu effaith y gyllideb ar gydraddoldeb

Anogom Lywodraeth Cymru i ystyried anghenion holl adrannau'r gymdeithas wrth bennu ei chyllideb. Cynghorom y Llywodraeth i ganolbwyntio ar effaith penderfyniadau strategol allweddol. Mae deall effaith gronnu penderfyniadau cyllidebol ar bobl yn gymhleth ond yn hanfodol.

Meddai'r **Gweinidog Cyllid, Jane Hutt AC**:

'Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i ymgymryd ag Ymchwiliad Gwerthfawrogol i ymagwedd Llywodraeth Cymru ar asesu effaith ei chyllideb ar gydraddoldeb. Roedd yr Ymchwiliad yn cynnwys cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Croesawodd Llywodraeth Cymru'r adroddiad hwn ac mae ein hasesiadau ar effaith y gyllideb hon ar gydraddoldeb yn adlewyrchu'r argymhellion.'

Taclo troseddau casineb

Roedd Ymchwiliad y Comisiwn i Aflonyddu ar sail Anabledd yn ganolog i benderfyniad Llywodraeth Cymru i lunio fframwaith i fynd i'r afael â throseddau casineb sy'n seiliedig ar anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywiol. Gan nad yw rhai pobl yn sylweddoli bod y gamdriniaeth y maent wedi'i dioddef yn drosedd, mae codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chynyddu'r adrodd arnynt yn rhan o gamau'r fframwaith. Mae camau eraill yn canolbwyntio ar herio stereoteipiau i hybu dealltwriaeth well o ddiwylliannau, cefndiroedd a ffyrdd o fyw gwahanol.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i roi sylw pellach i'n Hymchwiliad a sicrhau bod ein hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar waith

Mae **Cyngor Wreccsam** wedi datblygu, mewn swyddfeydd tai, 41 o ganolfannau adrodd trydydd parti yn seiliedig ar gymunedau, er mwyn hwyluso adrodd am droseddau casineb, atal achosion o aildroseddu a darparu cefnogaeth.

Pwy sy'n rhedeg Cymru?

Edrychodd ein hadroddiad Pwy sy'n rhedeg Cymru? 2014 ar feysydd allweddol bywydau pobl i asesu'r cydbwysedd rhwng y rhywiau wrth fyrddau gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Dangosodd y canlyniadau nad oedd braidd dim cynnydd wedi'i wneud dros y degawd diwethaf o ran penodi mwy o fenywod i uwch swyddi o bŵer a dylanwad yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2014 canfyddom:

- Er bod ddeng mlynedd yn ôl, 29% o Brif Weithredwyr Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn fenywod, dim ond 10% o'n Hymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol sydd â menyw wrth y llyw ar hyn o bryd
- Ddeng mlynedd yn ôl, roedd 14% o'n Harweinyddion Cyngor yn fenywod, ond 9% yw'r ffigur heddiw, a dim ond 27% o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod
- Nid oes yr un fenyw ymysg yr wyth o bobl sy'n naill ai'n Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau neu'n Brif Gwnstabl yng Nghymru
- Canfu arolwg o'r 100 cwmni mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru mai dim 2% ohonynt oedd â menyw yn brif weithredwr

Mae Pwy sy'n rhedeg Cymru? yn amlygu methiant ehangach i sicrhau bod ein coridorau pŵer yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru ac yn cynnwys pobl sy'n perthyn i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Mae gweithredu wedi dechrau mynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae rhai sefydliadau yng Nghymru wedi blaenoriaethu gwella amrywiaeth uwch reolwyr. Mae Chwaraeon Cymru wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i gael mwy o fenywod i swyddi gwneud penderfyniadau.

Mae ein Comisiynydd i Gymru, Ann Beynon, wrth lyw'r fenter 50:50 erbyn 2020 gyda Chwarae Teg a Laura McAllister, Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Mae'r nod o gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau erbyn 2020 o ran gwneud penderfyniadau yn ennill cefnogaeth arweinyddion y trydydd sector a'r sectorau preifat a chyhoeddus, yn ogystal â gwleidyddion.



'Mae canfyddiadau Pwy sy'n rhedeg Cymru? yn siomedig er nad ydynt efallai'n syndod mawr. O fod mewn sefyllfa addawol 10 mlynedd yn ôl mae'n amlwg fod Cymru wedi llithro'n ôl o ran cydraddoldeb rhywiol.'

Leanne Wood AC
Arweinydd Plaid Cymru

Dyfodol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Darparodd y Comisiwn gyngor i Lywodraeth Cymru ac i'r Comisiwn ar Ddatganoli ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf effeithiol i sicrhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyfnertu'r berthynas â Llywodraeth Cymru

Arwyddom Goncordat gyda Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu egwyddorion arweiniol gweithio ar y cyd wrth hybu cydraddoldeb a thaclo gwahaniaethu yng Nghymru. Cafodd y Concordat ei arwyddo gan Weinidog Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar y pryd, Jeff Cuthbert, a Chadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Farwnes Onora O'Neill, wrth i fwrdd y Comisiwn ymgynnull yng Nghaerdydd.

Meddai Jeff Cuthbert AC, y Gweinidog Cydraddoldeb ar y pryd:

'Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud dro ar ôl tro am yr angen i'r Comisiwn fod â phresenoldeb cadarn a gwahanol yng Nghymru. Rwy'n falch i arwyddo'r Concordat hwn, sy'n cryfhau'n bellach y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yng Nghymru. Mae'r Concordat yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer perthynas weithio effeithiol rhyngom.'

'Mae'r Comisiwn a'i Bwyllgor Cymru wedi bod yn ffynhonnell cyngor awdurdodol yn ogystal â bod yn ffrind beirniadol.'

Cyngor i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli

Rhoddom dystiolaeth i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, sy'n adolygu pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ein tri argymhelliad allweddol i'r Comisiwn Silk ar gyfer y ffordd ymlaen o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yw:

- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod â phwerau i adeiladu ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod â chymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol lawn o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a
- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod â chymhwysedd i gyfnertu ei berthynas â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.



Y Farwnes Onora O'Neill a Jeff Cuthbert AC

Pwyllgor Cymru yn dangos y ffordd ymlaen

Eleni, ymgwymerodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol ag ymchwiliad i ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Rhoddom dystiolaeth i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo bennu, yn ei dyb ef, y ffordd orau ymlaen i'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae argymhellion y Pwyllgor yn cynnwys;

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus.
- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r potensial ar gyfer sefydlu cyswllt mwy pendant rhwng dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus a chymal cynwysoldeb

Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu gwaith penodol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn arbennig o ran monitro a gorfodi'r dyletswyddau cydraddoldeb yng Nghymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru alinio ei strategaethau gwrth-dlodi a chydraddoldeb yn glir cyn cyflwyno unrhyw ddyletswydd gymdeithasol economaidd newydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru geisio pwerau pellach ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol i adeiladu ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar waith

Aeth Cyngor Sir Ynys Môn i'r afael â'r nifer cynyddol nad oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim, drwy gyflwyno ymagwedd 'dim arian' o ran talu am brydau ysgol, gan leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â phan, yng ngŵydd plant eraill, does dim rhaid i blant difreintiedig dalu.

'Hoffai'r Pwyllgor weld perthynas cadarnach, mwy ffurfiol rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Credwn fod achos dros weld Llywodraeth Cymru yn ariannu gwaith y Comisiwn wrth iddo fonitro a gorfodi dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru.'

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Byddwn yn adeiladu ar ein Concordat gyda Llywodraeth Cymru, a'n gwaith gyda'r Comisiwn ar Ddatganoli, i hybu a symud yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol cadarn a gwahanol yng Nghymru yn ei flaen.

Byddwn yn:

- Cynghori Llywodraeth Cymru, Pwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau Seneddol Cymru**

- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cyflawni deilliannau positif drwy arwain, annog, monitro a rhoi sylw pellach i'n gwerthusiad yn 2013**

- Cynyddu mynediad at gyngor ar gydraddoldeb a hawliau dynol drwy ein cyrsiau ar gyfraith gwahaniaethu**

- Gwella gweithleoedd yng Nghymru ac arddel arfer effeithiol**

- Datblygu a hybu'r sylfaen dystiolaeth gan gynnwys diweddarau Pa mor deg yw Cymru?**

- Miniogi'r ffocws ar gydraddoldeb drwy egluro'r cysylltiadau rhwng grwpiau gwarchoddedig a thlodi.**